# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-07-08 (p2): 08 Mai 2008

### Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir cryno am bob un o'r deisebau sydd i'w hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 22 Mai 2008. Mae geiriad y ddeiseb wedi ei ddarparu ynghyd â dogfennau ategol sydd i'w gweld fel atodiadPET(3) 08-08 Papur 2A.

### (i) P-03-136 Parcio yn Y Mynydd Bychan a Birchgrove

**Geiriad y Ddeiseb**

Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

**1. Gynghori Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i**

Ddarparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr trwy gael ardaloedd addas ar gyfer parcio i'r ysbyty ar y safle ac ar dir fel yr ardal ddiffaith i'r gogledd o'r rhandiroedd gyferbyn ag Ysbyty'r Mynydd Bychan ar yr ochr arall i Eastern Avenue,

Datganoli rhai o'r gwasanaethau sydd eisoes ar safle'r Mynydd Bychan a

Pheidio â gwerthu tir ysbytai yng Nghaerdydd a'r ardal gyfagos ar gyfer tai.

**2. Argymell bod Cyngor Sir Caerdydd yn**

Gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu pellach ar safle Ysbyty'r Mynydd Bychan oni bai bod uned yn cael ei symud o'r safle, a fydd â'r un effaith ar draffig

Peidio â chefnogi datblygiadau amlfeddiannaeth yn yr ardal a

Chyflwyno system parcio am gyfnod cyfyngedig yn y strydoedd sydd o fewn pellter cerdded i Ysbyty'r Mynydd Bychan.

**3. Ystyried o fewn y Cynulliad,** cyflwyno system a fyddai'n caniatáu i grwpiau lleol apelio i'r Cynulliad pan fydd y cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae'r trigolion yn ystyried a fydd yn gwaethygu'r broblem barcio yn yr ardal.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr Ron Page, ac fe'i derbyniwyd ar 29 Ebrill 2008. Derbyniodd dros 500 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi darparu datganiad ategol sydd wedi'i atodi fel rhan o bapur PET(3) 08-08 Papur 2A.

Mae'r deisebwr hefyd wedi derbyn ymatebion gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Masnachol Bws Caerdydd, a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhain wedi'u hatodi fel rhan o bapur PET(3) Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2008**